

EVANS, WILLIAM GARETH (1941-2000), hanesydd a darlithydd prifysgol mewn Addysg

Enw: William Gareth Evans

Dyddiad geni: 1941

Dyddiad marw: 2000

Priod: Kathleen Evans (née Thomas)

Plentyn: Rhys Evans

Rhiant: Mary Evans

Rhiant: William Evans

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: hanesydd a darlithydd prifysgol mewn Addysg

Maes gweithgaredd: Addysg; Hanes a Diwylliant

Awdur: John Graham Jones

Ganwyd ef yng Nghynwyd, ger Corwen ar 14 Rhagfyr 1941, yn fab i William a Mary Evans. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol Cynwyd, ac Ysgol T Tan Domen (Ysgol Ramadeg y Bechgyn yn y Bala), ysgol nodedig a fu'n feithrinfa i nifer o haneswyr blaenllaw gan gynnwys Yr Athro Syr Rees Davies (1938-2005). Aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn Hydref 1960 a graddiodd gydag anrhydedd uchel o fewn y dosbarth Ili yn hanes yno ym Mehefin 1963. Yna gwnaeth gwrs o hyfforddiant i ddilyn gyrfa fel athro ysgol, a threuliodd gyfnodau byr yn dysgu yng Nghaerffili, Penarlâg, Sir y Fflint a Llanymddyfri. Penodwyd ef i swydd darlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ym Mehefin 1971. Ym 1972 dyfarnwyd iddo radd M.Ed Prifysgol Cymru am draethawd ar hanes Coleg Llanymddyfri. Cyhoeddwyd fersiwn ohono yn gyfrol gan Ymddiriedolwyr Coleg Llanymddyfri ym 1981.

Yn y cyfamser, yn Hydref 1977, roedd Gareth Evans wedi derbyn swydd fel darlithydd o fewn Cyfadran Addysg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. O'r cychwyn cyntaf roedd yn ddarlithydd llwyddiannus, yn arddangos y gofal mwyaf dros ei fyfyrwyr, a chwaraeodd ran lawn yng ngwaith gweinyddol ei adran. Ym 1981 daeth yn aelod o weithgor Bwrdd y Cydbwyllgor Addysg Gymreig ar y Dystysgrif Gyffredinol ar Addysg, corff a sefydlwyd i osod seiliau fesul pwnc ar gyfer cyfundrefn gyffredin o arholi plant 16 oed. Roedd ganddo frwdfrydedd heintus dros hanes fel disgyblaeth academiaidd, hefyd dros hyfforddi ac ysbrydoli athrawon y dyfodol yn y pwnc, a sicrhau cyflenwad digonol o ddefnyddiau dysgu yn yr iaith Gymraeg. Hyn sy'n esbonio'r llif o gyhoeddiadau a luniodd ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Addysg o fewn ei adran, a'r gefnogaeth ddiflino a roddodd i'r cynllun gradd allanol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a sefydlwyd gan ei brifysgol ar ddechrau'r 1980au.

Ar yr un pryd parhaodd Gareth Evans gyda'i ymchwil academiaidd gydag arddeliad, a dyfarnwyd iddo radd MA Prifysgol Cymru ym 1981 a gradd Ph.D. ym 1987. Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'r traethawd doethuriaeth gan Wasg Prifysgol Cymru o dan y teitl *Education and Female Emancipation: the Welsh Experience, 1847-1914* yn haf 1990, ymdriniaeth a gafodd groeso brwdfrydig. Roedd galw mawr am ei wasanaeth hefyd fel darlithydd cyhoeddus a ddenodd gynulleidfaoedd niferus pa le bynnag yr âi. Cyhoeddodd Evans yn helaeth ar ysgolion unigol ac addysgwyr o tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, a denwyd ei sylw yn arbennig gan hanes addysg merched, pwnc nad oedd cyn hynny wedi derbyn ond ychydig iawn o sylw gan ymchwilwyr. Roedd wedi cyfrannu'n helaeth mewn cynifer o feysydd, a dyrchafwyd ef o'r diwedd yn uwch-ddarlithydd, penodiad tra haeddiannol, ym 1991, ac o fewn tair blynedd dyrchafwyd ef i raddfa darlennydd prifysgol. Nid oes amheuaeth, petai Gareth Evans wedi cael byw, na fyddai Prifysgol Cymru wedi dyfarnu iddo gadair bersonol.

Priododd ar 15 Hydref 1966 Kathleen Thomas, a bu iddynt ddau o feibion. Eu cartref yn Aberystwyth oedd 'Berwyn', 37 Cefn Esgair, Llanbadarn Fawr. Yr ail fab, Rhys Evans, yw awdur y gyfrol uchel ei bri *Gwynfor: Rhag Pob Brad* a gyhoeddwyd gan Wasg y Lolfa yn 2005. Bu farw Gareth Evans yn ei gartref ar 28 Mawrth 2000 ar ôl brwydro'n hir a dewr yn erbyn y cancr ac amosgwyd ei weddillion yn amlogfa Aberystwyth.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, XXXIII (2004)

Adroddiad Blynyddol Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth

gwybodaeth bersonol

gwybodaeth gan Mrs Kathleen Evans

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821235](https://www.wikidata.org/wiki/Q20821235)

Dyddiad cyhoeddi: 2008-07-30

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

